# Dechrau Arni

**Mae NASUWT yn ymrwymedig i amddiffyn buddiannau pob aelod sy'n athro neu'n athrawes newydd gymhwyso.**

**Pa fath bynnag o ysgol yr addysgwch ynddi, cewch gefnogaeth lawn gan NASUWT.**

**Darperir cefnogaeth i athrawon newydd drwy rwydwaith NASUWT o gynrychiolwyr lleyg a'r staff proffesiynol yng Nghanolfan Cymru NASUWT.**

**Isod mae darlun cyffredinol o'r mathau o ysgolion sy'n bodoli yng Nghymru y byddwch efallai'n addysgu ynddynt fel athro/athrawes newydd gymhwyso.**

Mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion yng Nghymru'n mynd i ysgolion a gyllidir gan y wladwriaeth.

## Y Fframwaith ar gyfer Ysgolion Gwladol

Mae pedwar categori o ysgolion a gyllidir gan y wladwriaeth:

- ysgolion cymunedol;
- ysgolion sefydledig;
- ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir;
- ysgolion gwirfoddol a reolir.

Mae dau gategori o ysgolion arbennig a gyllidir gan y wladwriaeth:

- ysgolion arbennig cymunedol;
- ysgolion arbennig sefydledig.

## Ysgolion a gyllidir gan y Wladwriaeth

### Ysgolion cymunedol

Mae gan ysgolion cymunedol gyswllt uniongyrchol ag awdurdodau lleol. Yr awdurdod lleol sy'n cyflogi'r staff.

### Ysgolion sefydledig

Mae ysgolion sefydledig yn gysylltiedig ag awdurdodau lleol. Y corff llywodraethu yw cyflogwr staff yr ysgol.

### Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

Cyllidir ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gan y wladwriaeth, gyda rhai o'r costau adeiladu'n cael eu hariannu gan y sefydliad neu'r ymddiriedolaeth sy'n berchen ar adeiladau'r ysgol. Y corff llywodraethu yw cyflogwr y staff.

### Ysgolion gwirfoddol a reolir

Mae ysgolion gwirfoddol a reolir yn cael eu cyllido gan y wladwriaeth. Yr awdurdod lleol sy'n cyflogi'r staff a nhw hefyd yw'r awdurdod derbyn disgyblion.

## Ysgolion arbennig a gyllidir gan y wladwriaeth

### Ysgolion Arbennig Cymunedol

Mae ysgolion cymunedol wedi eu cysylltu'n uniongyrchol ag awdurdodau lleol. Yr awdurdod lleol sy'n cyflogi'r staff, sydd piau'r tir a'r adeiladau a nhw hefyd yw'r awdurdod derbyn disgyblion.

*Trowch drosodd...*

## Ysgolion arbennig sefydledig

Mewn ysgolion sefydledig, y corff llywodraethu yw cyflogwr staff yr ysgol a'r awdurdod derbyn disgyblion. Y sefydliad sydd piau'r tir a'r adeiladau, oni bai mai mudiad elusennol sy'n berchen arnynt.

### Ysgolion ac unedau arbennig

Mae'r ysgolion a'r unedau hyn – sy'n aml mewn ysgolion eraill a gyllidir gan y wladwriaeth – yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr awdurdod lleol ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

### Telerau ac amodau

Mae'r telerau ac amodau i athrawon sy'n gweithio yn ysgolion y wladwriaeth, er enghraifft ysgolion cymunedol, sefydledig, gwirfoddol a gynorthwyir a gwirfoddol a reolir, yn gweithredu yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) a'r Amodau Gwaith i Athrawon yng Nghymru a Lloegr (Y Llyfr Bwrgwyn).

Mae hyn yn golygu, lle bynnag y cyflogir athrawon, y bydd ganddynt yr un hawliau cyflogaeth a chytundebol, gan gynnwys o ran amser gweithio, cyflog, cyfnod cynefino ac arfarnu/rheoli perfformiad.

## Ysgolion na chyllidir gan y Wladwriaeth

### Ysgolion annibynnol

Ysgolion preifat na chyllidir gan y wladwriaeth yw'r rhain.

Mae ysgolion annibynnol yn cael eu harian o ffioedd a delir gan rieni ac incwm a geir o fuddsoddiadau.

Mae gan ysgolion annibynnol ryddid cwricwlaidd ond disgwylir iddynt addysgu cwricwlwm eang a chytbwys.

Dan y Ddeddf Addysg 2002, rhaid i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

**Am drosolwg ar y gwahanol ffyrdd y mae'r NASUWT yn cefnogi athrawon newydd, ac am arweiniad i'r broses gynefino, y seminarau datblygiad proffesiynol di-dâl a'r rhwydweithiau rhyngweithiol rhwng athrawon newydd a hwylusir gan yr Undeb, cliciwch ar ddolen y wefan isod.**

**www.nasuwt.org.uk/NewTeachers**

# Dod o Hyd i'ch Swydd Addysgu Gyntaf

## Pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud

**Gall dod o hyd i'ch swydd gyntaf fel athro neu athrawes fod yn anodd i athrawon newydd gymhwyso. Yn ogystal â seminarau am ddim i baratoi athrawon newydd, mae NASUWT yn rhoi cyngor i athrawon newydd i'w helpu i chwilio am eu swydd gyntaf. Ceir canllawiau allweddol i helpu athrawon newydd yn yr adran hon.**

### Dod o Hyd i Swydd

*Ceisiwch wneud y canlynol:*

- dechrau chwilio am swydd cyn gynted â phosibl ac yn sicr erbyn tymor y Gwanwyn yn eich blwyddyn olaf;
- holi ynghylch unrhyw systemau 'cronfa' sydd gan awdurdodau lleol lle penodir athrawon newydd i'r awdurdod lleol cyn cael eu dyrannu i ysgolion wrth i swyddi gwag ddod ar gael;
- holi a oes gan yr awdurdod lleol gronfa ddata recriwtio lle mae'n derbyn ffurflenni cais ac yn eu cadw ar ffeil i'w paru gyda swyddi gwag addas pan fyddant yn codi;
- defnyddio'r we i chwilio am swyddi. Mae amryw o wahanol adnoddau ar wefannau fel gwasanaeth chwilio am swyddi'r Times Educational Supplement (TES) yn **www.tes.co.uk** ac e-teach yn **www.eteach.com**;
- mynd i adnodd ar-lein NASUWT am gyngor ar sut i ysgrifennu llythyr cais a chreu CV yn **www.nasuwt.org.uk/FindingYourFirstTeachingPost**;
- ystyried bod yn athro llanw os nad oes swydd barhaol ar gael;
- mynd i'r adran swyddi addysgu ar wefannau'r awdurdodau lleol. Rhestrir yr holl ddolenni ar gyfer y rhain yn ôl rhanbarth ar adnodd ar-lein NASUWT yn **www.nasuwt.org.uk/FindingYourFirstTeachingPost**.

*Peidiwch â gwneud y canlynol:*

- aros i swydd gael ei hysbysebu cyn ymgeisio bob tro. Gall hap-geisiadau i ysgolion fod yn llwyddiannus os derbynnir hwy ar amser priodol neu os ydynt yn gwneud argraff mor dda fel bod yr ysgol yn cadw eich cais ar ffeil;
- anghofio bod llawer o awdurdodau lleol yn cyhoeddi bwletinau swyddi gwag ac y gallwch ofyn am gopi;
- dibynnu ar ddulliau chwilio yn unig i ddod o hyd i swyddi. Gallwch ddod o hyd i swydd drwy gysylltiadau. Efallai fod gan ffrindiau a thiwtoriaid cyrsiau gysylltiadau sy'n rhoi gwybod iddyn nhw am swyddi gwag wrth iddyn nhw godi. Cofiwch fod yn effro i swyddi gan gysylltiadau y byddwch efallai'n eu gwneud yn eich lleoliadau ymarfer addysgu;
- anobeithio os ydych chi'n dal i chwilio am swydd ganol tymor yr Haf yn eich blwyddyn olaf.

*Trowch drosodd...*

## Gwneud Cais

***Ceisiwch wneud y canlynol:***

- rhoi sylw gofalus i'r canllawiau ar y drefn benodi a chofiwch ddilyn cyfarwyddiadau'r cyflogwr;
- paratoi drafft bras o'ch cais yn gyntaf;
- sicrhau bod eich gwybodaeth, eich profiad a'ch sgiliau'n cyd-fynd â phob maen prawf ar fanyleb y person wrth ysgrifennu eich datganiad ategol;
- sicrhau bod eich cais yn glir ac yn hawdd i'w ddarllen;
- os nad ydych chi'n gwneud cais ar-lein, defnyddiwch feiro ddu o ansawdd dda, oherwydd efallai y bydd eich cais yn cael ei lungopïo;
- defnyddio prosesydd geiriau i wneud eich datganiad cefnogol a'i atodi fel dogfen ar wahân;
- gwirio eich sillafu a'ch gramadeg yn ofalus;
- gofyn i rywun fynd dros eich cais cyn ei gyflwyno;
- cadw copi o'ch cais. Bydd angen i chi gofio beth oedd yn eich cais wrth baratoi am gyfweliad neu gallwch gyfeirio ato wrth gwblhau ceisiadau eraill;
- ysgrifennu llythyr ategol oni ofynnir i chi beidio. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi osod eich hun ar wahân i'r ymgeiswyr eraill. Mae'r llythyr yn gyfle i gyfleu eich personoliaeth, ond dylai fod yn gryno.

***Peidiwch â gwneud y canlynol:***

- anfon CV oni ofynnir i chi wneud hynny, ond os gofynnir i chi anfon CV, ewch dros ganllawiau'r NASUWT ar ysgrifennu CV yn adnodd yr Undeb ar 'Finding Your First Teaching Post' ar eu gwefan yn **www.nasuwt.org.uk/FindingYourFirstTeachingPost**;
- copïo ffurflen gais flaenorol ar gyfer pob swydd oherwydd efallai na fydd wedi'i thargedu'n benodol at eich cynulleidfa newydd;
- gwneud unrhyw wallau sillafu neu ramadegol;
- cynnwys unrhyw beth yn eich cais na allwch ei gefnogi gyda thystiolaeth mewn cyfweliad;
- colli'r dyddiad cau;
- hepgor unrhyw gwestiynau ar y ffurflen gais neu o'r meini prawf ar fanyleb y person;
- gwneud datganiadau negyddol amdanoch eich hun neu'ch profiad;
- bod yn hirwyntog na rhoi gwybodaeth amherthnasol;
- trin ceisiadau ar-lein yn wahanol i geisiadau papur, o ran eich sillafu, eich gramadeg a strwythur eich cais.

# Dod o Hyd i'ch Swydd Addysgu Gyntaf

## Y Cyfweliad

***Ceisiwch wneud y canlynol:***

- casglu cymaint o wybodaeth am yr ysgol ag y gallwch cyn y cyfweliad. Os yw'n bosibl, ewch i weld yr ysgol cyn y cyfweliad. Gofynnwch am gyfle i wneud hynny. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion wefan. Ewch arni i weld beth mae'n ei ddweud. Yn eich atebion, cyfeiriwch at y wybodaeth a gawsoch o'ch ymweliad neu o'r wefan;
- meddwl am gwestiynau a ofynnir i chi o bosibl yn y cyfweliad gan baratoi pwyntiau pwysig yr ydych am eu gwneud wrth ateb;
- meddwl am iaith eich corff ac edrychwch i lygaid y person sy'n gofyn y cwestiwn i chi;
- gofyn am fwy o eglurhad os nad ydych yn deall y cwestiwn;
- penderfynu a ydych yn barod i dderbyn y swydd os caiff ei chynnig i chi yn ystod y cyfweliad. Efallai mai hwn fydd y cwestiwn olaf. Os nad ydych am dderbyn y swydd, cofiwch ddweud hynny;
- bod yn barod, ar ddiwedd y cyfweliad, i ofyn y cwestiynau y gwnaethoch eu llunio ymlaen llaw i'r panel. Cofiwch sicrhau eu bod yn rhai ystyrlon a pheidiwch â gofyn cwestiynau er mwyn gofyn, yn enwedig os trafodwyd y cwestiwn yn y cyfweliad. Os trafodwyd y cwestiwn eisoes, dywedwch hynny;
- paratoi drwy ailddarllen eich ffurflen gais a meddwl am enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gwnaethoch ddangos eich sgiliau a'ch cymwyseddau;
- bod yn barod am y ffaith y bydd rhai ysgolion yn defnyddio disgyblion yn y broses gyfweld. Mae NASUWT wedi cynhyrchu canllawiau manwl ar hyn, sydd ar gael ar y wefan yn **www.nasuwt.org.uk**.

***Peidiwch â gwneud y canlynol:***

- eistedd yn yr ystafell gyfweld hyd nes gwahoddir chi i wneud, oni bai ei bod yn gwbl amlwg lle disgwylir i'r ymgeisydd eistedd;
- bod ag ofn defnyddio beiro a phapur i nodi'r prif bwyntiau cyn ateb y cwestiynau;
- siarad yn rhy gyflym, hyd yn oed os ydych yn gwneud hyn fel arfer;
- mynd i banig a rhoi ateb rhy fyrbwyll os gofynnir cwestiwn annisgwyl i chi. Mae'n hollol resymol i chi gymryd eiliad neu ddau i feddwl cyn ateb;
- rhoi atebion 'ie' neu 'na' yn unig. Rhowch enghreifftiau priodol i ddangos a chefnogi eich atebion;
- bod ag ofn defnyddio ystumiau i bwysleisio pwynt neu 'siarad gyda'ch dwylo' os gwnewch hyn fel arfer;
- mynd i banig ac ailadrodd eich hun neu siarad yn wag i lenwi distawrwydd ar ôl i chi orffen rhoi ateb.

**Mae gan yr NASUWT lawlyfr ar-lein cynhwysfawr ar Finding Your First Teaching Post.**

**Ewch i'r wefan i'ch helpu i gynllunio eich strategaeth chwilio am swydd. Mae'r adnoddau gwe yn cynnwys dolenni i wefannau awdurdodau lleol sy'n hysbysebu swyddi gwag i athrawon.**

**www.nasuwt.org.uk/FindingYourFirstTeachingPost**



"Fel undeb, mae NASUWT bob amser yn cadw cysylltiad â'i aelodau – felly, rwy'n ymwybodol iawn o fy hawliau fel athrawes.

*Athrawes Newydd Gymhwyso mewn Ysgol Uwchradd*"

# Penodi

## Ar ôl y Cyfweliad

Ar ôl cyfweliad llwyddiannus, dylech gael cynnig y swydd yn ysgrifenedig a ffurfiol, gan nodi amodau'r penodiad. Dylai hyn gynnwys:

- natur y cytundeb h.y. parhaol neu dros dro;
- y dyddiad cychwyn;
- y cyflog cychwynnol;
- diffiniad o'r swydd. (Efallai y bydd hyn ar ffurf disgrifiad swydd amgaeedig. Os nad oes un, dylech gael un yn fuan ar ôl i chi ddechrau yn y swydd.)

Naill ai cyn neu'n fuan ar ôl i chi ddechrau, dylech dderbyn copi o'ch amodau gwaith, a dim ond os yw'n cydymffurfio â'r diffiniad o'r swydd y cawsoch ei chynnig y dylech ei lofnodi. Os nad ydych yn siŵr, dylech ofyn am gyngor gan NASUWT.

Os na fuoch yn llwyddiannus, cofiwch ofyn am gael eich dadfriffio bob tro, fel y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth yma gyda'ch cais nesaf. Os ydych yn anfodlon gydag unrhyw agwedd ar y broses benodi, cysylltwch â NASUWT am gyngor.

Os ydych chi'n anhapus ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y broses benodi, gan gynnwys os ydych chi'n teimlo bod rhywun wedi gwahaniaethu yn eich erbyn, cysylltwch â NASUWT i gael cyngor.

## Addasrwydd i Addysgu

Mae'n bwysig eich bod yn gallu bodloni gofynion ffitrwydd meddygol swydd addysgu. Eich cyflogwr sy'n gyfrifol am bennu ffitrwydd meddygol. Efallai y bydd rhaid i chi gael profion meddygol cyn, neu'n fuan ar ôl, cael eich penodi.

Fodd bynnag, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan gyflogwyr ddyletswydd i ystyried unrhyw addasiadau y gellid eu gwneud i gynorthwyo athro wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau pan maent yn penderfynu a yw athro'n addas i addysgu. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn atal cyflogwyr rhag gofyn cwestiynau i ddarpar weithwyr ynglŷn â'u hiechyd cyn cynnig swydd iddynt.

Os yw adroddiad y swyddog meddygol yn anffafriol, cysylltwch â NASUWT i gael cyngor ar apelio.

## Athrawon ag Anabledd

Ni ddylai anabledd atal athro neu athrawes, yn awtomatig, rhag addysgu. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan y cyflogwr gyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol i'r amgylchedd gweithio i wneud pethau'n haws i staff sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd.

Os credwch fod swydd efallai wedi'i gwrthod i chi, neu os ydych wedi wynebu gwahaniaethu ar sail anabledd, cysylltwch â NASUWT.

## Ymweld â'ch Gweithle Newydd

Os na chewch wahoddiad awtomatig gan eich cyflogwr newydd i ymweld â'ch gweithle newydd cyn dechrau yn y swydd, dylech achub y blaen eich hun. Cysylltwch â'r ysgol i ofyn pryd fyddai'n gyfleus. Bydd yr ymweliad hwn

*Trowch drosodd...*

yn rhoi ymdeimlad gwell i chi o'r ysgol ac yn gwneud diwrnod cyntaf y tymor yn llawer haws. Dyma gyfle gwerthfawr i gyfarfod disgyblion a darpar gydweithwyr.

Efallai y byddwch am gysylltu â Chynrychiolydd/Cyswllt NASUWT yn yr ysgol, a fydd yn falch o roi cyngor a gwybodaeth i chi.

## Rhestr Atgoffa ar gyfer y Penodiad

Gall y math o ysgol y bydd athro neu athrawes newydd yn addysgu ynddi ddylanwadu ar ba wybodaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, dylai athrawon newydd sicrhau bod ganddynt fynediad at yr holl eitemau hanfodol ar y rhestr isod a cheisio cael gafael ar yr eitemau dymunol os yw hynny'n bosibl. Os cewch drafferth cael gafael ar y wybodaeth yma, cysylltwch â Chynrychiolydd neu Gyswllt Gweithle'r NASUWT yn yr ysgol neu â Chanolfan Genedlaethol NASUWT Cymru.

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| • Llythyr penodi.<br>• Copi o'ch amodau gwaith, yn cynnwys cyflog.<br>• Disgrifiad swydd.<br>• Cytundeb cyflogaeth. | • Manylion am raglen gynefino'r ysgol.<br>• Llawlyfr staff.<br>• Copi o bolisi ymddygiad disgyblion yr ysgol.<br>• Cytundebau a pholisïau staff yr ysgol, gan gynnwys:<br>  • tâl;<br>  • cyfle cyfartal;<br>  • iechyd a diogelwch;<br>  • gweithdrefnau cwyno, disgyblu a gallu ar gyfer y staff;<br>  • absenoldeb salwch;<br>  • arfarnu/rheoli perfformiad;<br>  • caniatâd i fod yn absennol. |

Nid yw'r rhestr yma'n hollgynhwysfawr a bydd Cynrychiolydd neu Gyswllt Gweithle'r NASUWT yn yr ysgol neu Ganolfan Genedlaethol Cymru'r NASUWT yn fodlon iawn i roi gwybod i chi am bolisïau eraill yr ysgol.

**Ewch i'r dudalen Being Appointed o fewn yr adnodd Finding Your First Teaching Post am fwy o fanylion am y wybodaeth bwysig sydd ei hangen ar athrawon newydd unwaith y penodir hwy i swydd.**

**www.nasuwt.org.uk/BeingAppointed**

# Cofrestru

## Cyngor y Gweithlu Addysg

Yng Nghymru, mae'n ofynnol drwy gyfraith i chi fod wedi'ch cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg sydd wedi disodli Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ers 1 Ebrill 2015.

Mae'n amodol bod athrawon llawn amser a rhan amser, athrawon llanw, darlithwyr addysg bellach a staff cefnogaeth dysgu yn cofrestru.

Os oes gennych Statws Athro Cymwysedig ac os ydych yn addysgu mewn ysgol annibynnol, mae'r rheidrwydd i gofrestru neu beidio'n dibynnu ar eich cytundeb cyflogaeth. Holwch eich cyflogwr os gwelwch yn dda.

Prif swyddogaeth Cyngor y Gweithlu Addysg yw rheoleiddio. Mae'n cadw cofrestr o athrawon, darlithwyr a staff cefnogaeth dysgu ac yn llywodraethu'r proffesiwn drwy ei weithdrefnau disgyblu a chymhwysedd. Nid yw Cyngor y Gweithlu Addysg yn cynrychioli buddiannau athrawon ac ni all ddarparu iddynt unrhyw un o'r gwasanaethau aelodaeth, cynrychiolaeth na chefnogaeth gyfreithiol a gynigir gan NASUWT.

I gofrestru, mae'n rhaid i athrawon dalu ffi flynyddol a fydd efallai'n cael ei thynnu allan o'ch cyflog cyn ei dalu os ydych yn gweithio.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â phryd y mae'n rhaid i chi gofrestru a sut y dylid talu'r ffioedd, ewch ar-lein i **www.ewc.wales**.

Hyd yn oed os nad oes raid i chi gofrestru, gallwch ddewis gwneud.

## Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Cymru a Lloegr)

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn cynorthwyo cyflogwyr i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. O'r herwydd, mae gan y GDG nifer o gyfrifoldebau, gan gynnwys prosesu ceisiadau am archwiliadau cofnodion troseddol, penderfynu pa bryd y mae'n briodol gosod unigolyn ar restr y rhai wedi'u gwahardd a pha bryd i'w dynnu oddi arni, a chynnal rhestr gwaharddiadau'r GDG yng nghyswllt plant.

O ran athrawon newydd gymhwyso, bydd y cyflogwr yn rhoi ffurflen i chi ei llenwi a'i dychwelyd ynghyd â rhai dogfennau penodol i brofi pwy ydych chi, a all gynnwys pasbort, trwydded yrru a/neu dystysgrif geni.

Mae dau fath o dystysgrif datgelu: Safonol a Manylach.

I athrawon, mae'n ofynnol i'r rhai sy'n ceisio cyflogaeth a gwaith gwirfoddol gael Datgeliad Manylach lle mae'r gwaith hwnnw'n gysylltiedig â phlant o dan 18 oed ac oedolion agored i niwed.

Mae'r DM yn cynnwys manylion am unrhyw euogfarnau, yn ogystal â rhybuddion a cheryddon, a gedwir gan yr heddlu ar lefel genedlaethol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddi-euogfarn a gedwir gan yr heddlu lleol sydd, ym marn prif swyddog yr heddlu, efallai'n berthnasol i'r swydd y ceisir amdani.

Mae'r DM hefyd yn cynnwys archwilio yn erbyn y rhestr genedlaethol o bobl a waharddwyd rhag gweithio gyda phlant, a gedwir gan y GDG.

*Trowch drosodd...*

Y ffi i wneud cais am DM yw £44 ar gyfer athrawon yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Cyfrifoldeb cyfreithiol yr ymgeisydd yw talu'r ffi; fodd bynnag, yn ymarferol, mae llawer o gyflogwyr yn talu'r ffi ar ran yr ymgeisydd.

Os yw aelod yn credu bod y wybodaeth a ddatgelir o ganlyniad i archwiliad GDG yn ffeithiol anghywir, gall godi'r mater naill ai drwy weithdrefn anghydfod y GDG neu'n uniongyrchol gyda Phrif Gwnstabl yr heddlu perthnasol. Dylai aelodau sydd â phryderon am hyn ofyn am gyngor gan yr NASUWT.

**Os oes gennych euogfarn droseddol a os ydych yn poeni am ei natur a'r effaith bosibl ar gais am swydd, dylech gysylltu â'r NASUWT am gyngor.**

**Nid yw euogfarn droseddol yn golygu'n awtomatig bob tro na allwch addysgu. Bydd yn dibynnu ar ba mor berthnasol ydyw i'ch gwaith.**

**www.nasuwt.org.uk/Registration**

# Cynefino

Bydd athrawon newydd gymhwyso yn wynebu amryw o heriau yn ystod eu blwyddyn gynefino. I gwrdd â'r safonau sy'n ofynnol i basio'r cyfnod cynefino, bydd angen i athrawon newydd gymhwyso ddangos bod ganddynt y gallu a'r ymroddiad i adeiladu ar y sgiliau, y talentau a'r arbenigedd proffesiynol a enillwyd yn ystod eu hymarfer addysgu. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod athrawon newydd gymhwyso yn cofio bod ganddynt hawliau sylweddol yn y broses hon. Mae sicrhau mynediad at yr hawliau hyn yn hanfodol i fanteisio i'r eithaf ar eich cyfnod cynefino.

Isod rhestrir y prif hawliau y dylai athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru ddisgwyl eu derbyn wrth fynd drwy'r cyfnod cynefino:

- **10% yn llai o amser addysgu ar yr amserlen. (Mae hyn yn ychwanegol at y 10% sydd wedi'i warantu o amser cynllunio, paratoi ac asesu y mae gan bob athro neu athrawes hawl cytundebol iddo.);**
- **peidio â gorfod addysgu y tu allan i'r ystod oedran neu bwnc y cawsoch eich hyfforddi i'w addysgu;**
- **mynediad at weithdrefnau cynllunio a ddefnyddir gan athrawon eraill, a phrofiad ohonynt;**
- **tiwtor neu fentor cynefino;**
- **peidio â gorfod addysgu'n rheolaidd unrhyw ddosbarthiadau neu blant unigol sydd â phroblemau disgyblaeth arbennig o heriol;**
- **dysgu'r un dosbarth(iadau) yn rheolaidd;**
- **derbyn adborth a chymorth rheolaidd ar eu cynnydd;**
- **rhaglen gymorth gynhwysfawr yn ystod eu cyfnod cynefino;**
- **derbyn rhybudd buan o unrhyw broblemau neu drafferthion a nodir gyda'u cynnydd;**
- **cael eich trin fel rhywun proffesiynol.**

Bydd methu cwblhau'r cyfnod cynefino'n foddhaol yn golygu nad yw'r athro/athrawes newydd gymhwyso'n gymwys mwyach i gael eu cyflogi fel athro/athrawes mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir. Rhaid diswyddo'r athro sydd newydd gymhwyso, oni bai fod apêl wedi'i gwneud, ac os felly gall y cyflogwr barhau i gyflogi'r person i gyflawni dyletswyddau cyfyngedig hyd nes y penderfynir ynghylch yr apêl.

Os credwch eich bod mewn perygl o fethu eich cyfnod cynefino, neu os cawsoch wybod eich bod yn debygol o fethu, dylech gysylltu â Chanolfan Genedlaethol Cymru'r NASUWT am gyngor ar unwaith. Felly hefyd os teimlwch nad ydych yn derbyn eich hawliau allweddol a'r cymorth priodol a fyddai'n eich helpu i basio eich cyfnod cynefino – dylech gysylltu â Chanolfan Genedlaethol NASUWT Cymru.

### Darpariaethau Eraill

Rhaid i bob cyfnod cyflogaeth o un sesiwn ysgol neu fwy gyfrif tuag at gyfnod cynefino'r athro/athrawes sydd newydd gymhwyso.

- Rhaid i bob athro newydd gymhwyso, ac sy'n cyflawni ei gyfnod cynefino drwy gronni cyfnodau tymor byr o addysgu llanw, gronni 380 o sesiynau ysgol cyn y gellir ei asesu yn erbyn y Safonau ar gyfer Athrawon sy'n Ymarfer.

*Trowch drosodd...*

- Nid oes unrhyw gyfyngiad ar faint o amser sydd gan athro/athrawes newydd gymhwyso i gwblhau ei gyfnod cynefino.
- Bydd mentor allanol drwy'r awdurdod lleol, yn ogystal â mentor ysgol mewnol, yn cael ei neilltuo i bob athro newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â chynefino; bydd y ddau yn arsylwi ar ymarfer yr athro ar adegau allweddol yn ystod y cyfnod cynefino.
- Mae gan athrawon newydd gymhwyso hawl i gyflawni'r Radd Meistr newydd mewn Ymarfer Addysgol fel rhan o'u datblygiad proffesiynol yn ystod eu cynefino os dewisant wneud hynny. Mae mwy o wybodaeth am y broses Gynefino ar gael yn Llawlyfr Cynefino NASUWT a roddir i bob athro newydd gymhwyso sy'n aelodau o NASUWT cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

## Cymorth parhaus gan NASUWT

Mae cefnogaeth barhaus o ansawdd uchel ar gyfer athrawon newydd yn ystod eu cyfnod cynefino yn hollbwysig.

Dylai llunwyr polisïau cenedlaethol ac ysgolion sicrhau bod gan bob athro newydd hawliau cynefino/prawf sicr, gan gynnwys amser proffesiynol, hawl i ddatblygiad proffesiynol a chydweithrediad ag athrawon profiadol mewn ysgolion eraill.

Os yw aelodau'n profi anhawster yn ystod eu rhaglen gynefino, dylent gysylltu â NASUWT ar unwaith. Gallai oedi cyn cysylltu olygu na ellir datrys y problemau. Dylai cynefino fod yn broses gefnogol, nid un sy'n cosbi.

Mae NASUWT hefyd yn cynnig llawer iawn o gyngor a chefnogaeth broffesiynol i athrawon newydd gymhwyso, gan gynnwys seminarau datblygiad proffesiynol rhad ac am ddim ar gyfer pob aelod newydd sy'n athrawon cymwys, cyn iddynt gychwyn yn eu swydd gyntaf.

Mae seminar NASUWT 'Paratoi am eich Swydd Addysgu Gyntaf' yn cynnig gwybodaeth bwysig am y broses gynefino, yn ogystal â meysydd ymarfer proffesiynol eraill.

Mae seminarau dilynol i athrawon newydd drwy gydol y flwyddyn gynefino'n ychwanegu at y pecyn cymorth.

**Mae Cynlluniwr Cynefino'r NASUWT yn cynnwys mwy o wybodaeth am y broses gynefino.**

**Bydd pob athro/athrawes newydd gymhwyso sy'n aelodau o NASUWT yn derbyn hwn cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.**

**www.nasuwt.org.uk/InductionPeriod**

# Eich Cyflog

Mae newidiadau sylweddol i strwythur cyflog athrawon yng Nghymru a Lloegr wedi dod i rym ers 1 Medi 2015. Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) yn cynnwys y darpariaethau tâl ac amodau gwaith ar gyfer y rhan fwyaf o athrawon yng Nghymru.

## Cyflog

Caiff athrawon eu talu un ai ar y brif raddfa cyflog neu'r raddfa cyflog uwch. Mae graddfeydd cyflog ar wahân i'r rheiny sydd mewn swyddi arweiniol.

Ysgolion sydd i bennu'r pwyntiau cyflog ar y raddfa, ac felly hefyd y meini prawf i athrawon symud ymlaen drwy a rhwng graddfeydd cyflog.

Mae NASUWT wedi darparu cyngor helaeth i aelodau ac i ysgolion ar y newidiadau i'r strwythur cyflog a datblygiad cyflog. Gellir cael yr holl wybodaeth a'r cyngor ar wefan NASUWT yn **www.nasuwt.org.uk/IndustrialActionWales**.

Er mwyn amddiffyn aelodau, mae NASUWT wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau gweithredu cenedlaethol sy'n cwmpasu cyflog a datblygiad cyflog. Gellir canfod y rhain yn **www.nasuwt.org.uk/IndustrialActionWales**.

Ymdrinnir â'r darpariaethau newydd hefyd yn seminarau'r NASUWT ar gyfer athrawon newydd gymhwyso, ac amgaeir y dyddiadau gyda'r cyhoeddiad hwn.

Dim ond os yw darpariaeth y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol wedi'i hymgorffori yn y contract cyflogaeth y caiff athrawon a gyflogir gan ysgolion annibynnol ei hawlio.

Dylai pob athro wirio a yw darpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon yn berthnasol iddyn nhw, a dylid gwneud cais am gopi o bolisïau cyflog a rheoli perfformiad/arfarnu yr ysgol. Os nad yw aelodau'n siŵr pa ddarpariaethau sy'n berthnasol, dylent gysylltu â NASUWT i gael cyngor.

## Y Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae'r cynllun ar gyfer Cymru a Lloegr. Caiff athrawon yng Nghymru a Lloegr eu cynnwys yn awtomatig yn y Cynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer athrawon gan eu cyflogwr. Mae croeso i chi, os dymunwch, ddewis peidio ag ymuno, gan wneud eich trefniadau pensiwn eich hun.

Mae NASUWT yn argymell yn gryf bod athrawon yn aros yn y Cynllun hwn. Mae'r Cynllun wedi'i gontractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P) ac yn sicrhau talu buddion sydd o leiaf cystal â'r rhai y byddai'r wladwriaeth yn eu talu.

Mae mwy o fanylion am y Cynllun ar gael ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon yn **www.teacherspensions.co.uk**.

Mae Llywodraeth San Steffan yn gwneud newidiadau i'r Cynllun.

Bydd NASUWT yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y newidiadau sy'n cael eu gwneud ac mae'n cymryd rhan mewn ymgyrch sydd wedi bodoli ers tro i amddiffyn darpariaethau pensiynau athrawon.

## Cysylltiadau Defnyddiol

| | |
|---|---|
| **Pensiynau Athrawon** | 0845 066166, www.teacherspensions.co.uk |
| **Wesleyan** | 0800 358 0325, http://wesleyan.co.uk/professions/teachers |
| **Y Gwasanaeth Cyngor ar Bensiynau** | 0300 123 1047, www.pensionsadvisoryservice.org.uk |
| **Gwasanaeth Pensiynau'r Ombwdsmon (TPO)** | 020 7630 2200, www.pensions-ombudsman.org.uk |

**www.nasuwt.org.uk/Pensions**



Rwy'n teimlo'n fwy diogel yn fy amddiffyn fy hun yn y gwaith gan wybod bod NASUWT yn fy nghefnogi!

*Athrawes Newydd Gymhwyso mewn Ysgol Arbennig*

# Arsylwi Ymarfer Addysgu

## Pam fod Arsylwi'n Bwysig

Gall arsylwi ymarfer dysgu athrawon newydd gymhwyso yn ystod y cyfnod cynefino fod yn gymorth effeithiol i ddatblygiad athrawon newydd gymhwyso a'u cynnydd tuag at fodloni Safonau Athrawon yn eu Gwaith (PTS), os caiff ei gynnal yn briodol gan yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan y dylid cytuno ar amserlen arsylwi athrawon newydd gymhwyso gyda'r athrawon newydd gymhwyso, y mentor allanol, y mentor yn yr ysgol a'r pennaeth yn hanner tymor cyntaf y cyfnod cynefino.

## Cyn yr Arsylwi

Dylai'r athro newydd gymhwyso a'r tiwtor/mentor cynefino gytuno ar amcan pob sesiwn arsylwi cyn ei gynnal. Dylai pob sesiwn arsylwi amlygu eich cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ymhellach yn y Safonau Athrawon yn eu Gwaith. Os nad yw eich arsylwi cyntaf yn dilyn y trywydd hwn, dylech drefnu cyfarfod i drafod hyn â'ch tiwtor/mentor cynefino. Gall y rhan fwyaf o broblemau gael eu datrys yn anffurfiol. Fodd bynnag, os oes problem yn parhau, efallai y byddwch am drafod y mater â'ch pennaeth a dylech wneud nodiadau ar unrhyw drafodaethau.

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd y mentor allanol yn trafod Safonau Athrawon yn eu Gwaith â'r athro newydd gymhwyso ac yn rhoi cyngor ar sut i gasglu tystiolaeth i'r portffolio wrth baratoi ar gyfer asesiad yn erbyn y Safonau Athrawon yn eu Gwaith ar ddiwedd y cyfnod cynefino. Dylai'r adborth ynglyn â'r arsylwi fod yn rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth. Eto, os yw'r unigolyn sy'n arsylwi yn mynd yn groes i'r graen, dylai hyn gael ei drafod rhwng yr athro newydd gymhwyso a'r mentor allanol cyn yr arsylwi, a dylid cytuno ar yr egwyddorion pam y dylai rhywun gwahanol wneud y gwaith arsylwi. Os oes gan yr athrawon newydd gymhwyso bryderon ynglŷn â'r amrywiaeth o bobl sy'n arsylwi eu gwaith ac nad yw'r pryderon hyn yn gallu cael eu datrys yn yr ysgol, dylent siarad â NASUWT cyn gynted â phosib.

## Ar ôl yr Arsylwi

Mae NASUWT yn glynu wrth yr egwyddor y dylai ymarfer dysgu athro newydd gymhwyso gael ei arsylwi ar gyfnodau rheolaidd yn ystod y cyfnod cynefino. Er nad oes rheolau penodol ynglŷn â pha mor aml y dylid cynnal yr arsylwi, mae'r Undeb yn argymell bod dau sesiwn arsylwi y tymor yn ddigonol yn ystod y cyfnod cynefino, yn gyffredinol. Fodd bynnag, os yw athrawon newydd gymhwyso yn teimlo eu bod yn cael eu gor-arsylwi, dylent siarad â'u mentor yn yr ysgol neu'r mentor allanol yn y lle cyntaf. Os yw'r broblem yn parhau, dylid ystyried cael sgwrs â'r pennaeth. Yn yr achosion hyn, dylai athrawon newydd gymhwyso roi'r wybodaeth ddiweddaraf i NASUWT fel eu bod yn gallu'ch helpu. Mae NASUWT yn egluro bod gor-arsylwi athrawon newydd gymhwyso yn wrthgynhyrchiol ac na fydd yn cynorthwyo'r broses ddatblygu y dylai'r cyfnod cynefino fod yn ei hybu.

Hefyd, os yw arsylwi ymarfer dysgu i fod o fudd i ddatblygiad yr athrawon newydd gymhwyso, dylid cytuno ar amcanion yr arsylwi ymlaen llaw a dylid cael trafodaeth ar ôl pob sesiwn arsylwi, i roi adborth ar y gwersi a gafodd eu harsylwi ac i'w ddadansoddi. Dylai'r drafodaeth a'r adborth fod yn gadarnhaol ac yn adeiladol, a

*Trowch drosodd...*

dylent nodi'r hyn y mae'r athrawon newydd gymhwyso yn ei wneud yn dda, ond hefyd sut allai'r ysgol helpu athrawon newydd gymhwyso mewn meysydd sydd angen eu datblygu.

Dylid ysgrifennu cofnod cryno ar ôl pob sesiwn arsylwi. Dylai hwn nodi'r amcanion datblygu y cytunwyd arnynt, ac amlygu'r hyn sydd angen ei ddatblygu a sut y dylid diwygio'r amcanion yn unol â'r arsylwi.

Os nad oes gan yr ysgol broses ffurfiol ar gyfer cofnodi trafodaethau ar ôl arsylwi, dylai athrawon newydd gymhwyso sicrhau eu bod yn cadw cofnodion eu hunain.

Gall Cynlluniwr Cynefino NASUWT fod yn adnodd hanfodol wrth gadw cofnodion o'r fath.

**www.nasuwt.org.uk/NewTeachers**

# Cadw'n Ddiogel

## Ymosodiadau

Mae athrawon yn dda iawn am gadw disgyblaeth mewn ysgolion, ond mewn lleiafrif bach o achosion mae problemau'n codi.

Mae NASUWT yn argymell bod aelodau'n cymryd y camau canlynol os yw disgybl, rhiant neu aelod o'r cyhoedd yn ymosod arnynt yn y gwaith ar dir yr ysgol.

- gofynnwch am gymorth;
- gofyn i Gynrychiolydd/Cyswllt NASUWT gael ei hysbysu ac am gyfle i siarad gydag ef/hi;
- gofyn i'r pennaeth gael ei hysbysu a bod yr heddlu'n cael gwybod am y digwyddiad. Os oes angen, ar ôl cael cyngor gan yr Undeb, gallwch wneud datganiad i'r heddlu a chael rhif trosedd;
- gofyn am alw ambiwlans, lle bo hynny'n briodol, yn enwedig os cawsoch ergyd i'ch pen. Dylech gael gadael yr adeilad i fynd i ofyn am gyngor meddygol o leiaf;
- peidiwch â cheisio parhau i addysgu'r wers neu gyflawni dyletswyddau eraill. Dylech ofyn naill ai am gael mynd adref neu eistedd yn dawel oddi wrth y disgyblion;
- cysylltwch â Chanolfan Genedlaethol NASUWT Cymru cyn gynted â bod hynny'n ymarferol;
- cyn gynted ag y teimlwch eich bod yn gallu, ysgrifennwch yr hyn y gallwch ei gofio am y digwyddiad a'r amgylchiadau a arweiniodd ato. Peidiwch â chyflwyno adroddiad ysgrifenedig i neb nes eich bod wedi ymgynghori â NASUWT;
- cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad, nodwch enwau unrhyw dystion, a lle bo hynny'n bosibl, gofynnwch i unrhyw staff a welodd y digwyddiad wneud datganiad ysgrifenedig er mwyn cyfeirio ato nes ymlaen;
- dylech sicrhau, cyn gynted â phosibl, bod y digwyddiad yn cael ei gofnodi yn y llyfr damweiniau. Chi ddylai wneud hyn os yn bosibl, neu eich Cynrychiolydd NASUWT. Dylech gael copi o'r hyn a gofnodwyd ar gyfer eich cofnodion. Dylech wirio ei gywirdeb os cofnodwyd y digwyddiad gan rywun arall.

Os ydych chi wedi cael eich anafu o ganlyniad i ymosodiad yn y gweithle a'ch bod yn teimlo bod eich cyflogwr wedi eich rhoi mewn perygl diangen yr oedd modd ei ragweld, ac a allai fod wedi'i osgoi, ffoniwch linell gymorth cyfreithiol **NASUWT 0808 100 2221.** Efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais i'r Awdurdod Digolledu Anafiadau Troseddol hefyd, sy'n talu iawndal i ddioddefwyr troseddau treisgar sydd wedi digwydd ym Mhrydain.

## Amddiffyn Plant

Dylech fod yn gyfarwydd â pholisi amddiffyn plant yr ysgol. Dylai unrhyw gam rydych chi'n ei gymryd gydymffurfio â'r polisi. Os yw disgybl yn ymddiried ynoch ei fod yn cael ei gam-drin neu os ydych yn amau camdriniaeth, ni ddylech gadw'r wybodaeth i chi eich hun nac ychwaith addo cyfrinachedd i'r plentyn. Dylech adrodd eich pryderon i'r swyddog amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol. Peidiwch â cheisio holi'r plentyn oherwydd gallai hyn roi unrhyw ymchwiliad yn y fantol. Dylech adael yr holi a'r ymchwiliad i weithwyr proffesiynol eraill.

Os bydd disgybl, rhiant neu rywun arall yn gwneud honiad o gam-drin plant yn eich erbyn, sy'n codi o'ch lleoliad addysgu, cysylltwch â NASUWT ar unwaith. Bydd NASUWT yn darparu cymorth proffesiynol a chyfreithiol fel y bo'n briodol.

*Trowch drosodd...*

## Cyswllt gyda Disgyblion

*Cyswllt Corfforol*

Gall disgybl, rhiant neu arsyllwr gamddehongli cyswllt corfforol. Dylech osgoi cael cyswllt corfforol heb reswm gyda disgyblion. Mae unrhyw fath o gosbi disgyblion yn gorfforol yn erbyn y gyfraith, felly hefyd unrhyw fath o ymateb corfforol i gamymddwyn oni bai er mwyn atal.

Gall cyswllt corfforol weithiau fod yn dderbyniol:

- pan fydd angen cysuro disgybl mewn gofid fel y byddai rhiant gofalgar yn ei wneud. Fodd bynnag, dylech ddefnyddio eich disgresiwn yn yr achosion hyn fel nad yw rhywbeth normal a naturiol yn dod yn gyswllt diangen heb gyfiawnhad, yn enwedig gyda'r un disgybl dros amser;
- natur y pwnc sy'n cael ei addysgu. Er enghraifft, i ddangos darn o gyfarpar neu offer neu i ddangos symudiad neu ymarfer mewn Addysg Gorfforol. Dylech fod yn ofalus nad yw cyswllt fel hwn yn cael ei gamddehongli;
- mewn argyfwng, lle mae'n rhaid i chi roi cymorth cyntaf. Gwnewch yn siŵr bod oedolyn arall yn bresennol, pan fo hynny'n bosib;
- mae gan athrawon hawl cyfreithiol i ddefnyddio grym 'rhesymol' lle mae angen atal disgybl yn gorfforol i'w rwystro rhag brifo eraill neu fo neu hi ei hun, rhag achosi difrod i eiddo neu aflonyddwch. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylech ddefnyddio cyn lleied â phosibl o rym. Mae'n hanfodol eich bod yn darllen polisi'r ysgol ar gyswllt corfforol ac yn defnyddio mesurau atal gyda disgyblion cyn dechrau addysgu. Dylid hyfforddi athrawon mewn mathau derbyniol o atal.

Dylai athrawon gofio nad oes diffiniad cyfreithiol o 'rym rhesymol'. Dywed canllawiau'r Llywodraeth fod grym yn rhesymol 'os yw'n gymesur i'r canlyniadau y bwriedir iddo eu hatal'. Felly, mater o grebwyll y person sy'n defnyddio'r grym ydyw.

Mae canllawiau'r llywodraeth yn datgan y dylai cyflogwyr roi cefnogaeth lawn i aelod o staff os ydynt wedi ymarfer eu hawl statudol i ddefnyddio grym rhesymol. Mae NASUWT yn croesawu'r egwyddor hwn, ond mae'r canllaw hwn yn awgrymu y bydd rheolwyr bob amser yn derbyn fod aelod o staff yr ysgol wedi defnyddio'u crebwyll yn gywir ac wedi defnyddio lefel briodol o rym ac yn aml, nid dyma'r achos yn ymarferol. Mae NASUWT yn cynghori athrawon na ddylent gymryd yn ganiataol y byddant bob amser yn cael cefnogaeth o'r fath gan yr ysgol ac y dylent sicrhau eu bod yn hysbysu NASUWT cyn gynted ag y ceir digwyddiad.

*Chwiliadau*

Gall staff yr ysgol chwilio disgybl am unrhyw eitem sydd wedi'i gwahardd dan reolau'r ysgol, gyda chaniatâd y disgybl. Bellach mae gan staff a awdurdodwyd gan y pennaeth bŵer statudol i chwilio disgyblion heb ganiatâd pan fyddant yn amau bod ganddynt rai eitemau gwaharddedig a chaiff staff yr ysgol feddiannu unrhyw eitem waharddedig a ganfyddir o ganlyniad i'r chwilio. Fodd bynnag, ni all cyflogwr orfodi athrawon i gynnal chwiliadau.

Mae NASUWT yn cynghori athrawon yn gryf i beidio â chyflawni chwiliadau oherwydd eu bod yn fwy tebygol o gael eu hymosod arnynt ac o gael eu cyhuddo. Ni ddylai chwiliadau o'r fath gael eu cynnal gan neb ond y rhai a gyflogir i gynnal chwiliadau neu'r rhai a ganiateir gan y pennaeth. Dylai fod gan yr ysgol bolisi ar sgrinio a chwilio am arfau.

# Cadw'n Ddiogel

*Cyfarfodydd â Disgyblion*

Gall cyfarfodydd preifat un-i-un gyda disgyblion unigol olygu eich bod yn agored i honiadau o ymddwyn yn amhriodol. Mae'n bwysig eich bod yn gwybod am ac yn dilyn polisi'r ysgol ar gyfarfodydd o'r fath. Bydd adegau pan fydd angen cael cyfweliad cyfrinachol neu gyfarfod un-i-un, ond lle bo hynny'n bosibl dylid cynnal y cyfweliadau hyn mewn ystafell lle gall rhywun y tu allan weld i mewn neu gyda'r drws ar agor. Dylai oedolyn neu ddisgybl arall fod gerllaw. Lle nad yw'n bosibl cael yr amodau hyn, dylech sicrhau bod aelod arall o staff yn gwybod bod y cyfweliad yn digwydd. Dylid ond trefnu cyfarfodydd gyda disgyblion unigol oddi ar dir yr ysgol mewn achosion eithafol, a gyda sêl bendith benodol y pennaeth.

*Perthnasoedd â Disgyblion*

Dylech sicrhau bod eich perthnasoedd â disgyblion yn briodol i oedran a rhyw'r disgyblion a gofalu nad yw eich iaith neu'ch ymddygiad yn arwain at wneud sylw na siarad gwag. Mae angen gofal a meddwl ynghylch agweddau, ymarweddiad ac iaith, yn enwedig wrth ddelio â bechgyn a merched yn eu glasoed.

Dylech ymatal rhag cael cyswllt â disgyblion y tu allan i'r ysgol drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig fel tecstio, negeseuon gwib neu drwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook, oherwydd gallai hyn hefyd olygu eich bod yn agored i honiadau o ymddwyn yn amhriodol.

Os ydych yn poeni bod disgybl yn dechrau eich ffansïo neu'n datblygu ymlyniad amhriodol, dylech roi gwybod am y sefyllfa i uwch aelod o'r staff a gofyn am gyngor gan NASUWT.

O dan Ddeddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2000, cyflwynwyd yr hyn a elwir yn ddeddfwriaeth 'manteisio ar ymddiriedaeth', gan ei gwneud yn anghyfreithlon i rywun gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol â pherson o dan 18 oed os oes perthynas o ymddiriedaeth rhyngddynt, hyd yn oed os cydsyniodd y person iau i'r berthynas. Mae hyn yn amlwg yn cynnwys perthynas rhwng athrawon a disgyblion yn eu hysgol, yn cynnwys y rhai sydd dros 16 oed.

Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 wedi ymestyn y ddeddfwriaeth hon ymhellach fyth. Cyflwynodd y trosedd o 'baratoi i bwrpas rhyw' gan gynyddu'r gosb am droseddu. Mae hyn yn golygu y gall unigolion a geir yn euog ddisgwyl treulio llawer mwy yn y carchar. Mae rhybudd o dan y Ddeddf hon hefyd yn golygu cael eich rhoi'n awtomatig ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw. Hefyd, mae'n debygol y bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eich gwahardd rhag gweithio â phlant a/neu oedolion agored i niwed mewn unrhyw faes, nid addysgu yn unig.

## Supporting members

*Straen*

Yn ôl ymchwil gan NASUWT, mae dwy ran o dair o athrawon yn dioddef o ryw fath o straen cysylltiedig â gwaith. Er bod y rhan fwyaf o athrawon yn profi pwysau'n ddyddiol, a gall rhywfaint o bwysau fod yn lles i bobl, yn bleser hyd yn oed, rhaid i'r pwysau fod yn gymesur ag anghenion y sefyllfa, y cyfyngiadau amser a chapasiti'r unigolyn i ymdopi a rheoli. Mae'r capasiti hwn yn amrywio o un person i'r llall. Gall pwysau hirdymor arwain at straen, sy'n gallu achosi salwch meddwl neu gorfforol.

Mae symptomau o straen yn cynnwys blinder affwysol, y pwls yn curo'n gynt, chwysu a phoenau yn y cefn, ysgwyddau neu'r gwddf. Gall achosi salwch fel clefyd y galon neu strôc, pwysedd gwaed uchel, anhwylderau treulio bwyd, problemau croen, heintiau, asthma a hyd yn oed canser. Gall athrawon sy'n dioddef o straen hefyd fod yn fwy tebygol o gael heintiau fel annwyd a'r ffliw.

*Trowch drosodd...*

Gall straen arwain at newid ymddygiad fel:

- pryder;
- pyliau o banig;
- blinder;
- diffyg cwsg;
- encilio;
- iselder;
- newid mewn hwyliau;
- bod yn bigog;
- esgeuluso edrychiad personol;
- absenoldebau cyson;
- ymddygiad ymosodol;
- amharod i dderbyn cyngor neu i gydweithio ag eraill;
- defnyddio sigaréts, coffi, alcohol a chyffuriau eraill yn fwy aml;
- gorweithio;
- cael trafferth canolbwyntio.

Gall perthnasoedd personol ddioddef hefyd.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr i ddiogelu iechyd a diogelwch gweithwyr yn y gwaith. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn yn erbyn effeithiau straen.

Dylai cyflogwyr ganfod achosion straen sy'n gysylltiedig â gwaith, asesu'r risgiau a gweithredu i'w hatal cyn i unrhyw un fynd yn sâl.

Cysylltwch â NASUWT i gael cyngor a chefnogaeth neu edrychwch ar yr wybodaeth am yr arolwg ar-lein 'Wellbeing at Work' ar y wefan.

**Gofal llais**

Un offeryn hanfodol a sensitif ymysg eich offer addysgu yw eich llais. Mae straen gormodol megis gweiddi neu glirio'r gwddf yn galed yn gallu cael effaith arnoch ar unwaith ac weithiau am gyfnod hir yn cynnwys dolur gwddf a mynd yn gryg. Cydnabyddir bod addysgu'n un o'r galwedigaethau sy'n fwyaf tebygol o achosi problemau sy'n ymwneud ag iechyd llais, dyma pam mae NASUWT yn cynnig hyfforddiant gofal llais i'w aelodau, a dyma pam mae NASUWT yn cynnwys hyfforddiant gofal llais yn rhan o'r seminarau i athrawon newydd gymhwyso. Os nad ydych wedi cael cyfle eto i fynd i un o'n seminarau i ANG, dyma rai camau syml i chi eu cymryd i helpu i ddiogelu eich llais:

- Osgowch weiddi i gael sylw. Peidiwch â chodi eich llais uwchben y sŵn: mae'n cynyddu tensiwn yn y plygiadau lleisiol. Datblygwch dechnegau, heblaw gweiddi, i gael sylw, e.e. cyfeiriwch gyda'ch pen at y bwrdd lle'r ydych wedi ysgrifennu beth fydd yn digwydd os nad yw'r siarad yn stopio, ac ati.
- Siaradwch ar gyflymder y gallwch ymdopi ag o. Arhoswch a chymerwch anadl. Gallai siarad yn rhy gyflym achosi mwy o densiwn yn y plygiadau lleisiol.
- Sefwch mewn ffordd effeithiol. Mae crymu eich cefn a'ch ysgwyddau'n eich atal rhag defnyddio eich diaffram yn effeithiol. Mae sefyll yn syth ac edrych yn eich blaen yn gostwng y straen ar eich llais yn fawr iawn.
- Yfwch ddigonedd o ddŵr ac osgowch ddiodydd a allai fod yn rhy asidig neu lidiog.
- Ystyriwch geisio cyngor meddygol os bydd y symptomau'n parhau.

**Dylai aelodau o NASUWT sydd am ymgeisio am gymorth cyfreithiol yng nghyswllt damweiniau yn y gwaith, damweiniau wrth deithio rhwng y cartref a'r gwaith, clefyd neu anabledd cysylltiedig â'r gwaith neu ymosodiad gan ddisgyblion, rhieni neu dresmaswyr, ffonio 0808 100 2221.**

# Defnyddio a Chamddefnyddio Technoleg

Mae datblygiadau mewn technoleg wedi arwain at welliannau sylweddol o ran cynorthwyo dysgu ac arferion gweithio athrawon ac aelodau eraill o weithlu'r ysgol. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth gynyddol o gamddefnyddio technoleg gan ddisgyblion, rhieni a chyflogwyr. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r modd y defnyddir technoleg yn cynyddu'r llwyth gwaith. Mae hefyd yn darparu cyfle ar gyfer bwlio a harasio staff ar sail rhagfarn, ac ar gyfer gwneud honiadau ffug yn eu herbyn. Gelwir defnydd amhriodol o e-byst, negeseuon testun a gwefannau yn seibr-fwlio. Mae hyn yn cael effaith andwyol iawn ar iechyd, lles, hyder a hunan-werth athrawon ac mewn rhai achosion, ar eu datblygiad gyrfaol wrth i gyflogwyr bori drwy wefannau am wybodaeth.

Efallai eich bod yn defnyddio amrywiaeth o wefannau rhwydweithio e.e. Facebook, Twitter a YouTube. Mae NASUWT yn cynghori y dylai pob athro neu athrawes newydd adolygu'n ofalus pob gwefan lle maent wedi cofnodi unrhyw wybodaeth bersonol y gallai myfyrwyr neu gyflogwyr efallai gael mynediad ati, i sicrhau ei bod yn briodol. Gall chwilio'r rhyngrwyd am eich enw ac ambell air allweddol roi canlyniadau a all beri syndod weithiau. A yw'n datgelu rhywbeth nad ydych chi am i fyfyriwr neu ddarpar gyflogwr ei weld? Os ydych chi'n cael trafferth yn ceisio dileu dolen i gynnwys ar y we, mae NASUWT yn darparu cyngor a chymorth, felly cysylltwch â Chanolfan NASUWT Cymru.

### Beth allwch ei wneud i'ch Amddiffyn eich Hun

- Darllenwch bolisi ymddygiad yr ysgol neu'r weithdrefn ar ddefnydd derbyniol o dechnoleg i sicrhau ei fod yn cynnwys staff yr ysgol.
- Cadwch rifau ffôn personol yn breifat a pheidiwch â defnyddio eich ffôn symudol eich hun i gysylltu â disgyblion neu rieni.
- Os defnyddiwch wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ceisiwch osgoi 'cyfeillio' â disgyblion neu rieni neu eu hychwanegu at eich rhestr o gysylltiadau. Gallwch fod yn rhoi mynediad at eich gweithgareddau a'ch gwybodaeth bersonol fel y medrant gysylltu â chi'n amhriodol. Medrant hefyd fod yn rhoi mynediad i chi at wybodaeth amhriodol.
- Peidiwch â phostio gwybodaeth amdanoch eich hun yn gyhoeddus na fyddech am i gyflogwyr, cydweithwyr, disgyblion neu rieni ei gweld.
- Cadwch gyfrineiriau'n gyfrinach a chadwch fynediad at eich cyfrifon cyfrifiadurol yn ddiogel.
- Dylech bob amser gyfyngu mynediad at eich cyfrifon personol ar y rhyngrwyd a gosod lefelau preifatrwydd.
- Ceisiwch osgoi dial neu ymgysylltu'n bersonol â digwyddiadau o seibr-fwlio.
- Rhowch wybod i'r person priodol mewn awdurdod yn yr ysgol am unrhyw ddigwyddiadau cyn gynted ag y bo modd.
- Cadwch gofnod o bob digwyddiad (gyda dyddiadau, amseroedd, tystion a theimladau a brofwyd). Efallai fod llawer o'r digwyddiadau'n ymddangos yn ddibwys ar eu pen eu hunain, felly mae'n bwysig sefydlu a oes patrwm dros amser.

### Defnyddio Gwefannau Rhwydweithio Cymdeithasol yn Ddiogel

Mae NASUWT wedi gweithio gyda Childnet International i gyfrannu at greu canllawiau ar gyfer athrawon newydd gymhwyso ac athrawon dan hyfforddiant ar ddefnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn ddiogel. Bydd y canllawiau'n helpu athrawon newydd i ddeall y problemau gydag e-ddiogelwch, yn benodol o fewn amgylchedd yr ysgol.

*Trowch drosodd...*

## Defnyddio a Chamddefnyddio E-byst

Mae e-byst yn cael eu defnyddio'n aml fel dull o gyfathrebu mewn ysgolion a phan fyddant yn cael eu defnyddio'n briodol, gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol i arferion gweithio.

Fodd bynnag, mewn gormod o ysgolion, mae athrawon yn cwyno bod e-byst yn cyfrannu at eu llwyth gwaith, yn ymyrryd â'u hamser personol ac yn achosi straen.

Mae NASUWT wedi cynnal ymchwil helaeth i'r camddefnydd o e-byst, sydd wedi amlygu arferion gwael. Gallwch weld manylion llawn ymchwil NASUWT yn **www.nasuwt.org.uk/Emails**.

Mae angen i athrawon fod yn ymwybodol o'r wybodaeth ganlynol:

- dylai pob ysgol gael protocol clir ynglŷn â defnyddio e-byst a chyfrif e-bost yr ysgol. Gwiriwch a oes protocol gan yr ysgol;
- nid yw cynnwys yr e-byst yng nghyfrif e-bost yr ysgol yn hollol breifat. Maent fel arfer yn cael eu monitro gan yr ysgol ac mae modd cael mynediad at unrhyw e-byst;
- ni ddylai cyfrif yr ysgol fyth gael ei ddefnyddio i anfon e-byst personol rhwng staff nac i gyfathrebu ag aelodau eraill o'r undeb i drafod materion yr undeb, er enghraifft;
- dylai athrawon gael cyfrif e-bost personol ac ni ddylid defnyddio'r cyfeiriad e-bost hwnnw i drafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, na'i rannu â disgyblion na rhieni;
- wrth ddefnyddio cyfrif e-bost yr ysgol, dylid cymryd gofal i sicrhau bod yr hyn sydd yn yr e-bost wedi'i ysgrifennu mewn modd proffesiynol.

Ni ddylai'r ysgol ddisgwyl i athrawon ddarllen e-byst nac ymateb iddynt yn ystod amser addysgu, gyda'r nos, yn ystod y penwythnosau, yn ystod y gwyliau na phan maent yn absennol oherwydd salwch.

Mae rhai ysgolion yn disgwyl i athrawon ddefnyddio e-byst i gyfathrebu â rhieni neu i roi cymorth i blant â'u gwaith cartref. Ni ddylid disgwyl i athrawon wneud hyn yn eu hamser hamdden.

Os ydych chi'n gweithio mewn ysgol lle mae e-byst yn:

- cael eu hanfon, er enghraifft, gyda derbynebau darllen a grëwyd i greu disgwyliad o ymateb o fewn cyfnod penodol o amser;
- cael eu hanfon yn aml gyda'r nos, ar y penwythnos, neu yn ystod cyfnodau gwyliau;
- cael eu hanfon pan rydych ar absenoldeb salwch;
- tarfu ar eich bywyd personol;
- rhoi pwysau a straen arnoch chi;
- ychwanegu at eich llwyth gwaith;

dylid cysylltu â Chanolfan Genedlaethol NASUWT Cymru i gael cyngor a chefnogaeth.

**www.nasuwt.org.uk/WhatsNew/Campaigns/StopCyberbullying**

# Athrawon Llanw

Mae llawer o athrawon newydd gymhwyso'n addysgu llanw, weithiau tra byddant yn chwilio am swydd addas i gyflawni eu cyfnod cynefino ynddi.

Fel athro llanw, byddwch efallai'n wynebu heriau penodol yn eich rôl, fel gorfod newid gweithle'n aml a'r gwahanol weithdrefnau sydd gan ysgolion yn eu lle.

Mae'n bwysig cofio y bydd y telerau a'r amodau ar gyfer athrawon llanw'n debygol o newid yn ôl pwy sy'n cyflogi'r athro neu'r athrawes lanw.

Cyflogir athrawon llanw sy'n gweithio'n uniongyrchol i awdurdod lleol o dan Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon (STPCD) y fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyflogau ac amodau gwaith i athrawon.

Os cyflogir chi gan asiantaeth ac os buoch yn gweithio am 12 wythnos gyda'r un cyflogwr (e.e. ysgol neu awdurdod lleol), dylech fod â'r un hawliau i gyflog, telerau ac amodau â'r athrawon a gyflogir yn uniongyrchol yn yr ysgol honno.

## Awgrymiadau ar gyfer Athrawon Llanw

**Cyn derbyn gwaith llanw:**

- dylech sefydlu faint o dâl a gewch am ddiwrnod llawn neu hanner diwrnod;
- dylech sefydlu pryd y cewch eich talu (pob wythnos, pythefnos neu fis) a sut;
- dylech sefydlu eich hawl i gyflog salwch, cyfnodau mamolaeth a thadolaeth, hawliau cynllun pensiwn a mabwysiadu (bydd hyn yn dibynnu'n bennaf ar sut y cyflogir chi fel athro llanw);
- dylech sicrhau bod y cyflogwr yn tynnu arian allan o'ch cyflog ar gyfer yswiriant gwladol a threth. Mae gan athrawon llanw yr hawl i ymuno ag unrhyw gynlluniau aberthu cyflog y mae'r cyflogwr yn eu gweithredu.

**Pan fyddwch yn dechrau eich gwaith llanw, gofynnwch am y canlynol:**

- taith dywys neu fap o'r ysgol i'ch helpu i ddod o hyd i ystafelloedd dosbarth, ystafell y staff a'r toiledau;
- polisïau perthnasol fel polisïau disgyblu, cwyno ac iechyd a diogelwch yr ysgol;
- amserlen gydag amser y sesiynau, y toriadau ac amser cinio;
- y trefniadau/rhifau ffôn a chysylltiadau mewn argyfwng;
- manylion y trefniadau cofrestru a'r driliau tân a diogelwch;
- person penodol y gallwch fynd ato neu ati am gyngor a chymorth;
- gwybodaeth am bwy sydd â chyfrifoldeb rheoli drosoch;
- manylion unrhyw ddiwrnodau hyfforddi neu gyfarfodydd ac, os disgwylir i chi fynychu, gofynnwch a fyddwch yn cael eich talu;
- gwybodaeth am y disgyblion y byddwch yn eu haddysgu (e.e. unrhyw gyflyrau meddygol neu anghenion addysgol arbennig sydd ganddynt) ac unrhyw weithdrefnau, polisïau neu gynlluniau ysgol perthnasol.

*Trowch drosodd...*

**Cofiwch:**

Pa mor fyr bynnag fydd y lleoliad, gofynnwch i'r ysgol am eirda neu dystlythyr i'w roi yn eich portffolio ac i'ch helpu i ddod o hyd i swydd arall.

**Fel athro llanw, mae gennych chi hawliau: yn benodol, ni ddylid disgwyl i chi addysgu na goruchwylio gwersi lle nad oes gennych y cymwysterau neu'r profiad perthnasol.**

Os bydd athro llanw yn teimlo nad yw wedi cael ei drin yn deg, yna argymhellir iddo gysylltu â Chynrychiolydd Gweithle NASUWT neu Ganolfan Genedlaethol NASUWT Cymru. Mae'r manylion cyswllt yn nyddiadur NASUWT ac ar wefan yr Undeb yn **www.nasuwt.org.uk**.

Mae NASUWT yn deall bod athrawon llanw'n wynebu rhai materion unigryw yn eu cyflogaeth ac felly mae'r Undeb yn parhau i gynnig cefnogaeth benodol i athrawon llanw.

Mae hyn yn cynnwys seminarau ar gyfer aelodau sy'n athrawon llanw. Mae'r dyddiadau ar eu cyfer yn y Canllaw hwn.

Mae gwefan 'Cynghorydd Llanw' NASUWT yn galluogi athrawon llanw i fynegi eu barn ynghylch safon asiantaethau llanw yn y DU yn effeithiol. Bydd hyn yn helpu i amlygu arferion cyflogi drwg o fewn asiantaethau llanw ledled y wlad. Rhowch eich barn ar yr asiantaethau llanw rydych chi'n eu defnyddio nawr ac yn y dyfodol ar **www.supplyadvisor.co.uk**.

Cofiwch gofrestru gyda chronfa ddata aelodau NASUWT os ydych yn athro llanw, i sicrhau eich bod yn derbyn y wybodaeth berthnasol, gan gynnwys bwletinau i athrawon llanw.

Gallwch gael mynediad at eich manylion aelodaeth yn **www.nasuwt.org.uk/MyDetails**.

**I gael rhagor o wybodaeth ynghylch addysgu llanw ac i lwytho copi o daflen *Gwybod eich Hawliau* NASUWT i lawr am ddim, ewch i**

**www.nasuwt.org.uk/Supply**

# Ynghylch NASUWT

NASUWT yw'r undeb athrawon mwyaf yng Nghymru a'r DU. Dyma un o lawer o ffactorau sy'n gwneud NASUWT yn undeb ar gyfer pob myfyriwr a phob athro newydd gymhwyso.

## Cynrychiolaeth Traws-sector

Mae gan NASUWT aelodau ym mhob sector, o flynyddoedd cynnar i addysg bellach, ac mae'n cynrychioli athrawon ym mhob rôl, gan gynnwys arweinwyr ysgol.

## Democrataidd

Mae aelodau'r NASUWT yn penderfynu ar bolisïau cenedlaethol a weithredir gan rai sydd wedi'u hethol i'w cynrychioli a chan staff proffesiynol.

## Gwleidyddol Annibynnol

Mae'r NASUWT yn wleidyddol ond nid yw'n perthyn i unrhyw blaid wleidyddol. Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol. Nod yr Undeb yw gweithio er lles gorau athrawon pa bynnag blaid sy'n llywodraethu ar lefel genedlaethol neu leol. Mae NASUWT wedi'i ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod y llywodraeth a chyflogwyr yn gwrando ar leisiau athrawon ac arweinwyr ysgolion, ac i weithio tuag at ddylanwadu ar bolisi addysg i sicrhau'r amodau gwaith gorau i bob athro ac arweinydd ysgol, i'w galluogi i weithio'n effeithiol i godi safonau.

## Y Gynrychiolaeth Orau

Mae'r NASUWT yn darparu gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol o'r radd flaenaf drwy rwydwaith o swyddogion lleol, staff cenedlaethol a rhanbarthol proffesiynol, a chynghorwyr cyfreithiol arbenigol o ansawdd uchel.

## Ffocws ar Gydraddoldeb

Mae'r Undeb yn arwain y frwydr ar hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae'r Undeb yn cydnabod nid yn unig bod gan athrawon ac arweinwyr ysgol hawl i weithio mewn amgylchedd teg a chyfiawn, yn rhydd o wahaniaethu, ond eu bod hefyd yn chwarae rôl hanfodol mewn herio gwahaniaethu, anghydraddoldeb ac anoddefgarwch. Mae NASUWT, felly, yn cynhyrchu gwybodaeth a chyngor i aelodau ar ystod eang o faterion cydraddoldeb. Dyfeisiwyd llawer o'r cyhoeddiadau hyn i roi cyngor ymarferol i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i wreiddio ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. I weld cyhoeddiadau cydraddoldeb NASUWT ac i gael gwybod mwy am bolisïau cydraddoldeb NASUWT, ewch i wefan yr Undeb yn **www.nasuwt.org.uk**.

## Ymgyrchu dros Gyflwyno Newid

Mae NASUWT yn undeb sy'n ymgyrchu ac sydd wedi sicrhau gwelliant yn amodau gwasanaeth athrawon, wedi delio â disgyblion ymosodol ac afreolus ac wedi herio llwyth gwaith gormodol a biwrocratiaeth. Mae nifer o ymgyrchoedd eraill yr Undeb wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwaith athrawon.

NASUWT yw'r undeb athrawon sy'n 'Sefyll dros Safonau' ac yn gofalu am athrawon drwy ddefnyddio rhaglen barhaus yr Undeb o weithredu diwydiannol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.nasuwt.org.uk/IndustrialAction**.

*Trowch drosodd...*

## Cyngor ac Arweiniad Ymarferol

Mae NASUWT yn cynhyrchu cyngor ac arweiniad ymarferol ardderchog. Gallwch gael copi o bob cyhoeddiad gan yr NASUWT drwy fynd i'r wefan yn **www.nasuwt.org.uk**. Gallwch archebu copïau i'w hargraffu ar-lein neu drwy wneud cais i'r Tîm Dosbarthu ar 029 2054 6080. rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk..

## Hyfforddiant a Gwybodaeth
## Training and Information

The NASUWT offers an extensive programme of trade union and professional courses. They can be found on the website. The NASUWT also holds numerous conferences and seminars throughout the year. These are featured on the NASUWT website.

## Cymorth drwy Garedigrwydd

Weithiau, mae athrawon yn profi caledi ariannol. Mae'r aelodau'n gymwys i wneud cais i Gronfa Garedigrwydd NASUWT os ydynt neu os oeddent yn aelodau o NASUWT.

Gall dibynyddion aelod neu gyn-aelod o NASUWT hefyd fod yn gymwys i dderbyn cymorth. Dylai unrhyw aelod o'r NASUWT sy'n profi caledi ac sydd am wneud cais i'r Gronfa Garedigrwydd gysylltu â Chanolfan Genedlaethol Cymru'r NASUWT ar 029 2054 6080.

## Cyngor Cyfrinachol

Mae NASUWT yn cynnig cyngor cyfrinachol i'w aelodau i gyd ar faterion o bryder ynghylch eu cyflogaeth.

Os oes gennych broblem yn y gwaith, gallwch ei thrafod gyda'ch Ysgrifennydd NASUWT Lleol, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol neu aelod o staff proffesiynol NASUWT.

Bydd NASUWT yn cynnig cyngor a chefnogaeth, ond ni fydd yn gweithredu ond yn unol â'ch dymuniadau.

## NASUWT ar Twitter

Gallwch ddilyn NASUWT i gael gwybod am ddigwyddiadau, polisïau a newyddion cyffredinol yr Undeb ar twitter.com/@nasuwt.

Gallwch hefyd ddilyn Ysgrifennydd Cyffredinol NASUWT ar twitter.com/@Chris_K_NASUWT.

## NASUWT ar Facebook

Mae tudalen Facebook NASUWT yn ffynhonnell arall o wybodaeth ddefnyddiol.

Mae gan NASUWT hefyd wefannau Facebook dynodedig i athrawon newydd ac i grwpiau eraill o aelodau.

I gael gwybod mwy ewch i **www.facebook.com/nasuwt**.

# Sut i Gysylltu â NASUWT

## Cynrychiolwyr a Chysylltiadau yn y Gweithle

Corff sy'n cael ei arwain gan ei aelodau yw NASUWT a daw'r cymorth cychwynnol i'w aelodau oddi wrth gydathrawon sy'n cyflawni swyddogaethau i'r Undeb yn wirfoddol.

Mae gan NASUWT rwydwaith o athrawon sy'n ymgymryd â rôl Cynrychiolydd neu Gyswllt yn y Gweithle yn y rhan fwyaf o ysgolion. Yn ddelfrydol, Cynrychiolydd neu Gyswllt Gweithle yw'r person cyntaf y dylai aelod gysylltu ag ef/hi os oes ganddo broblem yn y gweithle.

## Cymdeithasau Lleol

Mae pob aelod yn rhan awtomatig o Gymdeithas Leol NASUWT sy'n cwmpasu'r ardal lle maent yn addysgu.

Mae Cymdeithasau Lleol yn cael eu rhedeg gan athrawon sydd wedi'u hethol gan yr aelodaeth mewn ardal benodol. Mae Cymdeithasau Lleol yn ffynhonnell gymorth bwysig i athrawon.

Etholir Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol o blith aelodau NASUWT i roi cyngor, arweiniad a chymorth i'r Cymdeithasau Lleol yn eu hardal a chynrychioli'r aelodau yn Rhanbarthau cenedlaethol yr Undeb.

Gall aelodau gael gafael ar fanylion cyswllt ar gyfer Ysgrifennydd eu Cymdeithas Leol neu eu haelodau o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ar wefan NASUWT yn **www.nasuwt.org.uk** neu drwy gysylltu â Chanolfan Genedlaethol NASUWT Cymru (manylion isod).

## Y Ganolfan Genedlaethol a'r Pencadlys

Cefnogir aelodau NASUWT yng Nghymru gan Ganolfan Genedlaethol NASUWT Cymru yr Undeb. Ceir rhwydwaith o ganolfannau rhanbarthol ledled Lloegr.

Mae pob un o Ganolfannau'r Undeb yn cynnwys staff proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n drylwyr i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i aelodau, Cynrychiolwyr/Cysylltiadau a Chymdeithasau Lleol.

**Canolfan Genedlaethol Cymru'r NASUWT**
Clos Greenwood
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD
Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk



Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda iawn gan NASUWT. Mae llawer o gyrsiau datblygiad proffesiynol ar gael. Mae cymaint o ofal i athrawon newydd.

*Athrawes Newydd Gymhwyso mewn Ysgol Gynradd*

# Manteision a Gwasanaethau

## Cyngor a Chymorth Ychwanegol

Mae'r NASUWT yn deall bod angen cyngor a chymorth cyfrinachol mewn meysydd arbenigol ar aelodau weithiau. Er mwyn darparu'r cyngor hwn, mae'r NASUWT yn cefnogi sawl mudiad i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i'w aelodau:

- **Gwasanaeth cwnsela straen 24 awr:** **Llinell Cymorth i Athrawon** **08000 562 561**
- **Cyngor AM DDIM ar ddyledion:** **Payplan** **0800 716 239**

## Gwasanaethau Eraill

Gall aelodau'r NASUWT fanteisio ar yr ystod eang o gynigion, gostyngiadau, manteision a gwasanaethau sydd ar gael gan bron i 150 o wahanol gwmnïau. Yn ogystal â'r gwasanaethau ariannol ac yswiriant gan gwmnïau partner hirdymor fel yr Wesleyan i Athrawon a'r Endsleigh, mae'r wefan Benefits and Services yn **www.nasuwtbenefits.co.uk** (cyfrinair p2015) yn rhoi mynediad i chi at arbedion o ystod lawn o fanteision ffordd o fyw a ddylai olygu y gallwch adennill cost eich tanysgrifiad i NASUWT bob blwyddyn.

Yn ogystal â'r wefan, cadwch lygad am yr e-Gylchgrawn (eZine) Benefits and Services misol a anfonir at bob aelod a roddodd eu cyfeiriad e-bost i'r Undeb. Os nad ydych yn derbyn yr e-Gylchgrawn, ffoniwch y Tîm Aelodaeth ar 03330 145550 i roi eich cyfeiriad e-bost neu e-bostiwch eich rhif aelodaeth at membership@mail.nasuwt.org.uk.

## Materion heb gysylltiad â chyflogaeth

Mae gan aelodau'r NASUWT fynediad at nifer o wasanaethau cyfreithiol:

- 30 munud o gyngor cyfreithiol am ddim ar faterion heb gysylltiad â chyflogaeth;
- hawliadau anaf personol heb gysylltiad â chyflogaeth i aelodau a'u dibynyddion;
- trawsgludo didrafferth;
- ysgrifennu ewyllys am ddim.

**Gall aelodau'r NASUWT gael mynediad at y gwasanaethau uchod drwy ffonio 0808 100 2221.**

## Yswiriant Damweiniau Personol Di-dâl

Mae'r NASUWT yn darparu yswiriant damweiniau personol am ddim os bydd aelod yn cael anaf marwol neu'n colli coes, braich neu lygad oherwydd damwain yn y gwaith. Mae'r yswiriant yn cynnwys damweiniau a achoswyd wrth deithio i ac o'r gwaith.

## Yswiriant Di-dâl ar gyfer Arian Parod ac Eiddo Personol

Mae'r NASUWT yn darparu yswiriant rhad ac am ddim ar gyfer arian parod ac eiddo personol a gaiff eu lladrata o'r ysgol neu a gollir mewn tân. Mae'r yswiriant yn cynnwys colledion a gafwyd tra oeddech ar ymweliad swyddogol gyda'r ysgol. Mae aelodau sy'n talu eu tanysgrifiad erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn neu sy'n talu eu tanysgrifiad drwy ddebyd uniongyrchol yn elwa o yswiriant ar lefel uwch.

*Trowch drosodd...*

## Yswiriant Am Ddim Rhag Difrod Maleisus i Geir

Mae'r NASUWT yn darparu yswiriant am ddim os yw ceir ei aelodau'n cael eu difrodi'n faleisus tra byddant ar dir yr ysgol.

Dim ond i aelodau sy'n talu eu tanysgrifiad erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn, neu sy'n talu eu tanysgrifiad drwy ddebyd uniongyrchol, y mae'r yswiriant hwn ar gael.

Rhoddir mwy o fanylion am yr yswiriant am ddim hwn gan Dîm Aelodaeth NASUWT drwy ffonio 03330 145550 neu ar wefan yr Undeb.

## Dim ond rhai o'r manteision yw'r rhain sydd ar gael i aelodau NASUWT

**I gael rhagor o wybodaeth am y manteision i chi, ewch i www.nasuwtbenefits.co.uk (cyfrinair D2016).**




## Oes eisiau pecyn dihafal o gymorth a chyngor proffesiynol AM DDIM arnoch chi?

**Mae undeb athrawon mwyaf Cymru yn cynnig y canlynol:**

- **Finding your First Teaching Post** – adnodd cynhwysfawr ar-lein i'ch cynorthwyo i gael eich swydd addysgu gyntaf: www.nasuwt.org.uk/FindingYourFirstTeachingPost.
- **Dechrau Arni [Starting Out]** – canllaw cyflym i wybodaeth hanfodol sydd ei hangen arnoch ar ôl cael eich penodi, gan gynnwys cyflog, amodau gwasanaeth a chofrestru.
- **Cynlluniwr Cynefino Personol** – i roi arweiniad a chefnogaeth i chi drwy gerrig milltir allweddol cynefino – unigryw ac ar gael drwy NASUWT yn unig..
- **Rhaglen o seminarau proffesiynol am ddim** – cyn i chi gychwyn yn eich swydd gyntaf a thrwy gydol eich blwyddyn gyntaf.
- **Rhwydweithiau lleol o athrawon** – ar gael ar ben arall y ffôn, i ddarparu cyngor a chefnogaeth.
- **Canolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd** – gyda staff proffesiynol i ddarparu cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol a phroffesiynol.
- **Cyngor a gwybodaeth o'r radd flaenaf** – i'ch cartref, ar-lein ac yn eich man gwaith.

## Y cynnig newydd gorau i athrawon yng Nghymru
## *...AM DDIM yn ddi-ffael tan 2018**

GWARANTU

**Ymunwch â'r NASUWT heddiw.**
**Cyflym, rhwydd a diffwdan. Ar-lein: www.nasuwt.org.uk**

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

*Bydd pob athro newydd gymhwyso sy'n aelodau ac yn cymhwyso yn 2016 sy'n cytuno i dalu eu tanysgrifiad yn y dyfodol drwy ddebyd uniongyrchol yn derbyn aelodaeth o'r NASUWT YN RHAD AC AM DDIM hyd 31 Rhagfyr 2017, gyda 50% o ostyngiad yn 2018.

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

Ar-lein: www.nasuwt.org.uk